# Strategaeth Data Agored

## Crynodeb Gweithredol

2024

# Rhagair

## Pete Perry



Fel cwmni, ein pwrpas yw darparu dŵr yfed a gwasanaethau amgylcheddol o safon uchel am werth gorau er budd y cwsmeriaid a'r cymunedau a wasanaethwn heddiw, ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Rydyn ni'n gosod ein cwsmeriaid wrth galon popeth a wnawn, ac mae pob un ohonom yn byw wrth ein gwerthoedd i ddarparu ein gwasanaethau mewn ffordd sy'n agored, yn onest ac yn dryloyw. Er mwyn cynnal y gwerthoedd hyn a'n nod o ennill ffydd ein cwsmeriaid bob un dydd, rydyn ni wedi lansio ein Strategaeth Data Agored gyntaf, sy'n amlinellu ein huchelgeisiau i wneud y data'n agored i'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid.

Rydyn ni'n gwybod bod yna nifer o fanteision i wneud data'n agored; mae'n gyrru arloesedd, yn gwella tryloywder, ac mae'n gallu cynnig enillion ariannol sylweddol hefyd gan wella cydweithio a darbodaeth. Rydyn ni'n cymryd camau breision ar ein siwrnai Data Agored eisoes. Yn ogystal â chyhoeddi data allweddol am berfformiad, rydyn ni wedi cymryd rhan mewn prosiectau data agored cenedlaethol fel y Gofrestr Genedlaethol o Asedau Danddaear, sef un map cyffredin o wasanaethau danddaear y wlad, ac mae gennym brotocolau cadarn a sefydlog i rannu gwybodaeth sydd wedi bod yn fuddiol yn ystod digwyddiadau, a gyda phartneriaid yn y diwydiant ynni a dŵr hefyd. Rydyn ni'n bartner allweddol yn y fenter Stream genedlaethol a aeth yn fyw ym mis Rhagfyr 2023; mae'r fenter hon yn darparu platfform cyffredin i'r holl gwmnïau dŵr gyhoeddi data er mwyn helpu i lywio gwasanaethau gwell. Ym mis Ionawr 2024, fe gymeron ni gam pwysig ar ein siwrnai Data Agored trwy ryddhau ein Map Amser Real o Orlifoedd Storm.

Rydyn ni wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â'r strategaeth data agored a amlinellir yn y ddogfen hon. Mae'r diwydiant a'r busnes yn wynebu sialensiau digynsail; daw darparu mynediad agored i ddata â manteision ychwanegol i'n cwsmeriaid, ein cydweithwyr ac o ran datblygiad y busnes.

## Tom Crick



Fel aelod o Fwrdd Glas Cymru a Chadeirydd Pwyllgor Technoleg Dŵr Cymru, mae gen i ddiddordeb brwd iawn yng nghynnydd galluogrwydd data Dŵr Cymru; mae gwell data'n gyrru gwell perfformiad ac atebolrwydd.

Mae'n falch gen i weld sut mae hyn wedi datblygu, gyda lansiad ein Strategaeth Data gyntaf ac ambell i brosiect a menter arloesol. Lansio ein Hacademi Data Dŵr yw un o'r prosiectau nodedig; mae hyn yn helpu i ddatblygu galluogrwydd y cwmni trwy ddarparu cymorth i gydweithwyr gyda'u sgiliau wrth ddefnyddio data, a sut y gall hyn eu cynorthwyo yn eu rolau pob dydd.

Y Strategaeth Data Agored yw'r cam nesaf ar y siwrnai data yma, ac mae'n falch iawn gen i weld y sector Dŵr yn cysoni â'r sector Ynni wrth wneud Data Agored yn flaenoriaeth allweddol. Dros y flwyddyn nesaf, bydd datblygiad deallusrwydd artiffisial yn newid sut rydyn ni'n gwneud penderfyniadau gyda'r data sydd yn ein meddiant, ac mae hi'n hanfodol ein bod ni, fel sefydliad ac fel sector, yn gwneud hyn mewn ffordd sy'n agored ac yn dryloyw.

Rydyn ni'n gwybod fod data'n ased gwerthfawr, a bydd y strategaeth hon yn hwyluso cydweithio, arloesi a gwell gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid yng Nghymru.

# Pwrpas y ddogfen hon

Bwriad y ddogfen hon yw darparu crynodeb o Strategaeth Data Agored Dŵr Cymru Welsh Water Yn y ddogfen hon, fe ffeindiwch chi wybodaeth allweddol ynghylch pam lluniwyd y Strategaeth Data Agored a sut y byddwn ni'n mynd ati i roi ein menter data agored ar waith.



# Pam llunio strategaeth Data Agored?

Cyhoeddwyd Strategaeth Data Agored gyntaf Dŵr Cymru Welsh Water yn ddiweddar. Y prif reswm dros lunio'r ddogfen hon oedd ein hymrwymiad i gyhoeddi data agored, rhoi cyfle i'n cwsmeriaid a'r cyhoedd weld ein gwaith mewnol a'n gwaith allanol ar gyfer y cyhoedd, ac effaith bosibl y gweithgareddau hyn ar bobl ar draws yr ardaloedd a wasanaethwn. Rydyn ni'n cysoni ein dull o weithredu ag argymhellion Ofwat, sef rheoleiddwyr y cwmnïau dŵr, yn eu **hadroddiad H2Open** diweddar hefyd.

Mae data agored yn gysyniad allweddol yn ein Strategaeth Data a Dadansoddeg, sy'n amlinellu'r gweithgareddau allweddol sy'n cynorthwyo'r sefydliad i allu llwyr drosoli galluogrwydd ei ddata, ac yn caniatáu i'r sefydliad symud i gyfeiriad gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata. Am fod hyn yn beth cymhleth a phwysig dros ben, mae yna angen hollol gyfiawn i lunio strategaeth sy'n hybu dull agored o weithredu o ran data, ond sy'n gwneud hynny mewn ffordd sy'n gyson â'r meddylfryd strategol ehangach ynghylch data yn Dŵr Cymru Welsh Water.

Rydyn ni'n credu bod y strategaeth hon yn pennu cynllun clir ynghylch sut rydyn ni'n bwriadu gwneud cynnydd o ran data agored dros y misoedd nesaf ar ein cyfer ni ein hunain, ein cwsmeriaid a'r cyhoedd.

**Er mwyn cyflawni menter data agored sy'n llwyddiannus ac yn barhaus, bydd angen:**

- Gweithredu rheolaeth uwch ar ddata, safonau technegol, a thechnoleg er mwyn hwyluso darpariaeth setiau data agored effeithiol ar gyfer y defnyddwyr terfynol.
- Addysgu'r busnes ynghylch data agored. Caniatáu i'r sefydliad glustnodi cyfleoedd i ryddhau data'n hwylus, a hynny'n seiliedig ar y gwerth a asesir i'r defnyddwyr terfynol, gan roi ystyriaeth briodol i unrhyw risgiau cysylltiedig a'u lliniaru.
- Sianelau gweithredol i ryngweithio â'n rhanddeiliaid allanol a'r cyhoedd ar led, ac i ddeall ganddyn nhw beth yw eu blaenoriaethau o ran data agored. Mae hyn yn cynnwys y gallu i rannu dirnadaeth am ddefnyddwyr terfynol y data â nhw, ac i gasglu adborth ar ba mor ddefnyddiol yw'r data, ei werth ac unrhyw gyfleoedd ar gyfer gwella.
- Datblygu dangosyddion perfformiad allweddol priodol sy'n gyrru llwyddiant parhaus a gwerth y fenter data agored, ac ystyriaethau strategol eraill o ran cynnal trosolwg strategol, fel pennu cyllidebau a sicrhau bod manteision yn cael eu gwireddu.

**Yn y ddogfen grynhoi yma, fe ffeindiwch chi wybodaeth allweddol am sut rydyn ni'n bwriadu cyflawni'r gofynion hyn.**

# Y prif egwyddorion

Gan weithio gyda'r Sefydliad Data Agored (ODI), rydyn ni wedi archwilio ein haeddfedrwydd fel sefydliad o ran data agored, gan ymgysylltu cydweithwyr, a sefydlu cyfeiriad strategol. Trwy gydweithio â chwmnïau dŵr eraill trwy'r **gydweithfa Stream**, rydyn ni wedi sefydlu egwyddorion cydweithredol i ategu cyflawniad data agored ar gyfer y sector hefyd.

**Canfyddadwy**

Mae'r data yn hawdd i bobl a chyfrifiaduron ei ffeindio, gyda chod adnabod sy'n unigryw yn y byd ac yn gyson, metaddata cyfoethog, ac sydd wedi ei gofrestru neu ei fynegeio mewn adnodd y gellir ei chwilio, fel porth data agored cwmni, a/neu blatfform allanol.

**Rhyngweithredol**

Mae'r data'n defnyddio iaith ffurfiol, hygyrch, cyffredin a defnyddiadwy ar lefel eang i gynrychioli gwybodaeth sydd wedi ei safoni ar draws y sector dŵr ac y gellir ei chysylltu gymaint â phosibl at seilwaith data mewn sectorau eraill sy'n ymwneud â'r cyfleustodau, yr amgylchedd adeiledig a'r byd naturiol.

**Hygyrch**

Gellir canfod y data fesul cod adnabod gan ddefnyddio protocol cyfathrebu safonol sy'n agored, am ddim, ac y gall pawb ei ddefnyddio, ac mae'r metaddata'n hygyrch, hyd yn oed pan nad yw'r data ar gael mwyach.

**Ailddefnyddiadwy**

Mae'r data'n cael ei ddiffinio a'i ddisgrifio'n fanwl gyda nifer o nodweddion cywir a pherthnasol, yn cael ei ryddhau dan drwydded glir a hygyrch ar ddefnyddio data, ei gysylltu â tharddiad manwl, ac mae'n bodloni safonau cymunedol hygyrch sy'n berthnasol i'r parth o dan sylw.

**Moesegol**

Caiff y data ei asesu er mwyn deall effaith gadarnhaol a negyddol casglu, defnyddio a rhannu data, y mesurau lliniaru perthnasol, a chaiff y canfyddiadau eu cyhoeddi mewn ffordd dryloyw ac agored.

**Agored**

Caiff y data ei gyhoeddi yn ôl diffiniad data agored yr ODI - i'w gyrchu, ei ddefnyddio a'i rannu gan unrhyw un.

# Cynllun cyflawni data agored Dŵr Cymru Welsh Water

Yn Dŵr Cymru Welsh Water, rydyn ni wedi ymrwymo i gyflawni data agored ar gyfer ein cymuned, yn gyson â'r disgwyliadau a bennwyd gan Ofwat. Bydd ein cynllun cyflawni yn troi o gylch cyflawni gweithgareddau a mentrau sy'n gysylltiedig â phedair thema allweddol, sef:

### Trosolwg Strategol

Gweithgareddau i ategu llwyddiant parhaus y strategaeth data agored, gan gynnwys nawdd, darogan a phennu cyllidebau, a diffinio'r dangosyddion perfformiad allweddol (DPA). Dylai DPA sicrhau bod allbwn yn cadw hygyrchedd, amrywiaeth a chynwysoldeb mewn golwg.

### Rheoli Data a'r Seilwaith

Rheoli data, llywodraethu, a chynnal seilwaith dyluniad pensaernïol a gweithrediad platfformau.

### Diwylliant o Ddata Agored

Gweithgareddau sefydliadol sy'n codi ymwybyddiaeth am ddata agored, sgiliau a llythrennedd, ac yn hwyluso trafodaeth ac ystyriaeth o ran y posibiliadau ar gyfer setiau data agored y dyfodol.

### Cydweithio a Blaenoriaethu

Sefydlu a chynnal perthnasau â rhanddeiliaid allanol allweddol a defnyddwyr terfynol at ddibenion adborth, rhannu gwybodaeth a blaenoriaethu'n seiliedig ar anghenion defnyddwyr.

**Rhennir y cynllun cyflawni yn dri cham cyflawni:**

- Cam Un
- Cam Dau
- Cam Tri

# Cam un

## Gosod y sylfaen ar gyfer gweithrediad llwyddiannus y fenter

### Trosolwg Strategol

- Iustnodi'r rolau allweddol a'r personél cyfrifol
- Sefydlu Pwyllgor Llywio Data Agored i gadw trosolwg a chynorthwyo penderfyniadau
- Sefydlu Gweithgor Data Agored i gynorthwyo gweithgareddau data agored

### Rheoli Data a'r Seilwaith

- Sefydlu hwyluswyr data agored, gan gynnwys safonau, metaddata, ansawdd a thrwyddedau
- Sefydlu'r gofynion o ran data sensitif a rheoli risg
- Cysoni ag arferion gorau o gylch rheoli data sy'n datblygu yn y diwydiant dŵr

### Diwylliant Data Agored

- Rhyddhau modiwl data agored yr Academi Data Dŵr i'r sefydliad a chlustnodi asedau hyfforddi ychwanegol sy'n ymwneud â llythrennedd data i'w cynnwys yn y dyfodol
- Sefydlu sianel cyfathrebu fewnol ar gyfer diweddariadau i'r strategaeth data agored
- Sefydlu'r achosion defnydd ar gyfer cyhoeddi'r set data cychwynnol, a rhestr fer o setiau data i'w hystyried at y dyfodol

### Cydweithio a Blaenoriaethu

- Cyhoeddi'r Strategaeth Data Agored ar wefan y cwmni a'i gyfleu i gymuned DCWW
- Adolygu ein defnydd ni ein hunain o ddata agored a dylunio proses ar gyfer casglu adborth
- Parhau i gefnogi Stream wrth gyflawni map ffordd y diwydiant dŵr o ran data agored

# Cam dau

## Y camau cyntaf – cyhoeddi data agored, profi dyluniad y platfform a rhoi arferion gorau ar waith

### Trosolwg Strategol

- Y Pwyllgor Llywio Data Agored yn chwarae rhan yn y penderfyniadau allweddol am ddyluniad y fenter data agored a'r cam nesaf yn ei dyluniad
- Y Gweithgor Data Agored wedi cyflawni gweithgareddau cam dau
- Sefydlu DPA ar gyfer y fenter data agored, gan gynnwys sut y bydd y fenter yn cynnal lefelau hygyrchedd, amrywiaeth a chynhwysiant, a sut i reoli a thracio manteision y fenter

### Rheoli Data a'r Seilwaith

- Rhyddhau gwasanaeth data agored MVP
- Dylunio a mabwysiadu'r gofynion o ran data agored
- Dylunio a mabwysiadu'r gofynion o ran data sensitif a rheoli risgiau

### Diwylliant Data Agored

- Ychwanegu asedau hyfforddi ychwanegol at yr Academi Data Dŵr a'u rhannu â'r tîm ehangach er mwyn cynorthwyo llythrennedd data
- Cyhoeddi setiau data cychwynnol o dan drwydded agored ar wasanaeth data agored MVP
- Rhoi'r broses o flaenoriaethu setiau data ar waith a dewis y set nesaf o setiau data agored

### Cydweithio a Blaenoriaethu

- Sefydlu anghenion y defnyddwyr terfynol o ran cymorth ar gyfer cyhoeddi setiau data'r dyfodol a chytuno ar y camau y mae angen eu cymryd i ddatblygu dogfennaeth ategol
- Trafod a chytuno ar fecanweithiau er mwyn helpu i hyrwyddo setiau data newydd yn allanol er mwyn sbarduno arloesi (e.e. digwyddiadau hacathon, sialensiau arloesi)
- Gweithredu proses o ddarparu adborth ar gyfer cyhoeddwyr data arall rydym yn defnyddio data ganddynt

# Cam tri

## Sefydlu data agored fel gweithgaredd busnes fel arfer (BAU) yn Dŵr Cymru Welsh Water

### Trosolwg Strategol

- Defnyddio'r Pwyllgor Llywio Data Agored a'r Gweithgor Data Agored er mwyn cyflawni BAU yn barhaus, gan enwebu cynrychiolwyr o'r gwahanol feysydd busnes i fod yn 'Hyrwyddwyr Data Agored' i'w cynorthwyo
- Creu dangosfwrdd sy'n darparu diweddariadau rheolaidd ar DPA y fenter
- Cymeradwyo map ffordd ar gyfer mentrau data agored y dyfodol

### Rheoli Data a'r Seilwaith

- Gwneud fersiwn gyflawn o'r gwasanaeth data agored yn fyw ar gyfer y cyhoedd
- Rhoi'r holl ofynion technegol ar waith a rhyddhau data ar gyfer y sefydliad
- Sefydlu mesurau monitro ansawdd data ar gyfer piblinellau sy'n cynorthwyo setiau data agored, a sefydlu prosesau i ddatrys problemau

### Diwylliant Data Agored

- Ychwanegu asedau hyfforddi ychwanegol at yr Academi Data Dŵr a'u rhannu â'r tîm ehangach
- Cyhoeddi'r set nesaf o setiau data agored a blaenoriaethu setiau data agored pellach
- Gweithredu proses ar gyfer casglu a mesur manteision setiau data agored

### Cydweithio a Blaenoriaethu

- Trefnu a hwyluso sialens arloesi er mwyn dangos defnydd arloesol o ddata agored a manteision cydweithio tuag at sialens o ran y busnes/sector
- Dangos ein defnydd ein hunain o ddata agored trwy enghreifftiau ysgrifenedig neu astudiaethau achos
- Chwilio'n rhagweithiol am gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth a chydweithio

